# Adroddiad Gwrthwynebiad:

# Y Cynnig i Gau YGG Felindre

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**Cynnwys**

**1. Cefndir.......................................................................................................... 2**

**2. Gwrthwynebiad i'r hysbysiad statudol...................................................... 2**

**3. Ymateb RhAG ................................................................................................ 23**

## 1. CEFNDIR

Saif Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Felindre ym mhentref Felindre yn Abertawe. Yn Ionawr 2018, roedd ganddi 20 o ddisgyblion amser llawn (ALl) ar y gofrestr rhwng 4 ac 11 oed, ynghyd â 2 blentyn meithrin rhan-amser. Roedd dau ddosbarth oedran cymysg yn yr ysgol. Mae'r niferoedd ar y gofrestr yn disgyn ers pum mlynedd. Yn ôl y wybodaeth a ddiweddarwyd ar gyfer Medi 2018, cofnodwyd mai dim ond 12 disgybl ALl sydd ar y gofrestr ynghyd â 2 ddisgybl meithrin a gostyngodd hyn ymhellach i 10 disgybl ALl yn Ionawr 2019, a phob un o’r rhain yn cael eu dysgu mewn un dosbarth.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Estyn o'r ysgol ym mis Chwefror 2015 ac roedd perfformiad yr ysgol yn ddigonol ar y pryd gyda rhagolygon gwella digonol ac fe'i rhoddwyd yn un o gategorïau monitro Estyn. Symudwyd yr ysgol o waith monitro Estyn ym mis Hydref 2016 ar ôl cymorth sylweddol gan yr awdurdod lleol a buddsoddiad amser gan staff yr ysgol. Mae adroddiad Estyn i'w weld yma: https://www.estyn.gov.wales/provider/6702133

Nid yw'r ysgol wedi gallu llenwi’r swydd pennaeth ac mae'r awdurdod lleol wedi darparu tri phennaeth gweithredol i'r ysgol ers 1 Ionawr 2017.

Mae’r awdurdod lleol wedi ymgynghori ar y cynnig i gau YGG Felindre a hynny’n effeithiol o 31 Awst 2019 ymlaen. Cynigir y dylid trosglwyddo’r dalgylch presennol i YGG Tan-y-lan, gydag ysgol newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol honno ar gyfer Ionawr 2021.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriodd y Cabinet yr ymatebion a ddaeth i law a chytunodd i symud y cynnig ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol, yn unol â gofynion Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar 9 Ionawr 2019 a gwahoddwyd gwrthwynebiadau tan 6 Chwefror 2019.

## 2. GWRTHWYNEBIADAU I'R HYSBYSIAD STATUDOL

Daeth 363 gwrthwynebiad ysgrifenedig i'r cynnig i gau YGG Felindre i law (9 o'r rhain ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu). Roedd 337 o'r gwrthwynebiadau hyn ar ffurf llythyr safonol, gyda 56 o'r rhain gan drigolion Felindre, 111 gan drigolion ardal ehangach Abertawe a 170 gan bobl sy'n byw y tu allan i ardal Abertawe. Hwyluswyd y mwyafrif llethol o'r llythyrau safonol gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ac fe'u hanfonwyd o'r un cyfeiriad e-bost gyda gwahanol enwau a chyfeiriadau wedi'u nodi ym mhob e-bost/llythyr.

Derbyniwyd deiseb a oedd yn dweud "Mae angen eich help arnom! Mae'r ALl yn cynnig cau ein hysgol cyfrwng Cymraeg, anhygoel. Rydym yn ymladd i'w chadw ar agor. Felindre yw un o'r pentrefi olaf yn ardal Abertawe lle mae'r Gymraeg yn dal i gael ei siarad fel mamiaith neu ail iaith o ddydd i ddydd", wedi ei llofnodi gan 195 o bobl.

Roedd un gwrthwynebydd wedi anfon llythyr agored at aelodau etholedig yn Abertawe, lle rhestrwyd 124 o enwau pobl a oedd yn cefnogi'r datganiad.

Y gwrthwynebiadau oedd:

| | Y Pwynt a Godwyd | Ymateb yr Awdurdod Lleol | Nifer yr Ymatebion Ysgrifenedig sy’n Codi’r Pwynt | % yr Ymatebion Ysgrifenedig sy’n Codi’r Pwynt |
|---|---|---|---|---|
| | **Teithio/Trafnidiaeth** | | | |
| 1 | Beth yw diben talu i fynd â phlant allan o'r pentref mewn car neu ar fws pan allent gerdded i'r ysgol? | Dim ond nifer fach o’r plant ar y gofrestr yn Felindre sydd o'r dalgylch. Mae'n fwy effeithlon cludo'r disgyblion hyn na pharhau i gynnal ysgol. Dim ond os oes llwybr cerdded ar gael y mae dysgwyr yn cerdded i'r ysgol, ond nid felly y mae hi i bob dysgwr yn Felindre. Fodd bynnag, fel rheol, byddai angen iddynt gerdded i fan cyfarfod ar gyfer unrhyw fws/tacsi sy’n eu codi. | **1** | **0.3%** |
| 2 | Ni fydd clybiau brecwast ac ar ôl ysgol yn opsiwn i'r rhai sy'n cael cludiant o'r cartref i'r ysgol. A yw hyn yn deg ac yn gyfiawn i bob plentyn fydd yn mynd i YGG Tan-y-lan? | Mae angen i rieni godi a chludo eu plant i weithgareddau y tu allan i'r ysgol yn y rhan fwyaf o ysgolion, gan gynnwys Tan-y-lan. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, gellid cynnal trafodaethau â rhieni ynghylch y posibilrwydd o ddarparu'r cludiant yn gynharach er mwyn i ddysgwyr allu mynychu clwb brecwast, pe bai galw. | **2** | **0.6%** |
| 3 | A fydd yr holl blant sy'n byw yn nalgylch Felindre, yn awr ac yn y dyfodol, yn sicr o gael gwasanaeth bws am ddim i'w hysgol newydd gan ei bod yn fwy na 2 filltir o daith ac nad oes llwybr cerdded diogel? | Byddant, byddai pawb sy'n byw yn nalgylch Felindre yn gymwys i gael asesiad trafnidiaeth, a byddai hyn yn wir yn y dyfodol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. | **1** | **0.3%** |
| | | | **0** | **0.0%** |
| | **Maint yr Ysgol** | | **0** | **0.0%** |
| 4 | Mae'r ysgol yn meithrin plant na fyddent yn ffynnu mewn ysgol fwy o faint. Sut mae'r Cyngor yn gwarantu y bydd pob plentyn sy'n ddisgybl ar hyn o bryd yn gyfforddus yn y ddau safle newydd? | Bydd athro dosbarth yn cefnogi holl anghenion dysgwr yn briodol. Byddai dysgwyr yn cael eu symud i un safle, oni bai fod rhieni'n dewis mynd â'u plentyn i rywle arall, a bydd y trosglwyddo'n digwydd i bob dysgwr unigol yn seiliedig ar eu hanghenion eu hunain. | **4** | **1.1%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Mae disgyblion hŷn yn edrych ar ôl y disgyblion iau mewn ysgol fach.  Mae cymysgu oedrannau a galluoedd yn creu awyrgylch meithringar a goddefgar, sy'n dda ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol. | Bydd plant yn gweithio ar draws grwpiau oedran ym mhob ysgol ac mae'n arfer cyffredin i blant hŷn gefnogi plant iau. | **2** | **0.6%** |
| 6 | A hithau'n ysgol gynradd wledig, mae dysgwyr yn dangos parch at eraill ac yn ofalgar, gan gael effaith gadarnhaol ar eu cyfoedion pan fyddant yn symud i'r ysgol uwchradd. | Gall plant ym mhob rhan o Abertawe ddangos parch at eraill. | **1** | **0.3%** |
| 7 | Amddifadu plant o fudd addysg mewn ysgolion llai o faint sydd â dosbarthiadau llai.  Mae rhai rhieni wedi dewis dod â'u plant allan o'r dalgylch i Felindre am ei fod yn fach. | Mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag ansawdd a chynaliadwyedd addysg yn YGG Felindre.  Caiff pob plentyn ei addysgu ar hyn o bryd mewn un ystafell ddosbarth o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6.  Mae angen arbenigedd ar gyfer y 6 maes dysgu a gynigiwyd ar gyfer mis Medi 2022, yn ogystal â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ac efallai na fydd y rhain wedi eu rhannu'n ddigonol. Byddai addysgu deg disgybl yn ei gwneud yn anodd diwallu anghenion y dysgwyr. Yn ogystal, byddai'n anodd i un athro ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal ag ehangder y meysydd dysgu a phrofiad. Byddai'r cwricwlwm statudol presennol a'i ddeuddeg pwnc ac ystod o oedrannau a galluoedd yn peri problem o ran llwyth gwaith i un athro gydag ystod mor eang o oedran, camau datblygu a gallu mewn un dosbarth.  Yr unig ddadl addysgol dros gadw Felindre fyddai y byddai disgyblion yn elwa o gymhareb disgybl athro uchel a gall hyn fod yn addas i les disgyblion a pherthynas gadarnhaol â'r athro. Fodd bynnag, nid yw lles ar ei ben ei hun yn diwallu anghenion dysgu plant. Os yw ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn anfoddhaol, gallai disgyblion Felindre gael yr un athro am y saith mlynedd nesaf. Mae tystiolaeth ymchwil yn cefnogi'r ddamcaniaeth bod disgyblion sydd ag athrawon anfoddhaol am | **2** | **0.6%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddwy flynedd yn cael trafferth dal i fyny â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill. Am y rhesymau a nodwyd uchod, byddai'n heriol sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu yn foddhaol mewn un ystafell ddosbarth a gallai hyn ddadwneud yr elfennau cadarnhaol a geir mewn dosbarthiadau bach. | | |
| 8 | Mewn ysgolion bach, nid y rhai mwyaf talentog na'r mwyaf hyderus yw'r unig rai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol. Caiff pawb gyfle. | Bydd ystod ehangach o weithgareddau a chwaraeon tîm ar gael mewn ysgol fwy o faint i'r plant ddewis ohonynt, felly bydd ganddynt fwy o ddewisiadau er mwyn dod o hyd i rywbeth sydd at eu dant. | **1** | **0.3%** |
| 9 | Dylai rhieni gael yr opsiwn o ddewis ysgol fach wledig. Ai bwriad y Cyngor yw cau pob un o'r ysgolion bach? Pam mae'r Cyngor yn targedu'r unig ysgol fach cyfrwng Cymraeg sydd ar ôl? | Bydd Cyngor Abertawe yn parhau i adolygu cynaliadwyedd pob ysgol fach. | **2** | **0.6%** |
| 10 | Does dim digon o esboniad ynglŷn â pham mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng. Dylid gwneud gwaith ymchwil i ganfod pam aeth rhieni â'u plant o'r ysgol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori awgrymwyd y gallai fod oherwydd staffio blaenorol. Ni atebodd y cyngor hyn ar ôl ymgynghori. | Mae gan rieni'r dewis i roi eu plant lle bydd lle. Y broblem gyda Felindre yw diffyg galw yn flynyddol yn y flwyddyn dderbyn. | **1** | **0.3%** |
| 11 | Roedd y corff llywodraethu newydd wedi dechrau ymgyrch recriwtio cyn cyhoeddi'r cynnig i gau'r ysgol. Mae nifer y disgyblion wedi gostwng oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol. | Roedd nifer y disgyblion wedi gostwng cyn cyhoeddi'r cynnig i gau'r ysgol. Nid oes awgrym y bydd y niferoedd yn cynyddu. | **5** | **1.4%** |
| 12 | Dylai'r Cyngor hybu'r ysgol i gynyddu nifer y disgyblion. Gallai hyn dynnu pwysau oddi ar ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio, yn enwedig yn ardal Treforys. | Cyfrifoldeb yr ysgol yw ei hyrwyddo ei hun. Nid yw'r Cyngor yn gallu hyrwyddo y naill ysgol ar draul y llall. Aeth y Cyngor i hysbysiad statudol i gynyddu maint y ddwy ysgol gynradd Gymraeg gyfagos a'u hadleoli i adeiladau newydd ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion hyn. Bydd hyn yn fwy na digon i ymdrin ag ysgolion gorlawn yn yr ardal a bydd yn caniatáu digon o le i ddisgyblion Felindre drosglwyddo. | **2** | **0.6%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13 | Yn anghytuno â rhagamcanion disgyblion. Mae datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal. | Ystyriwyd datblygiadau tai posibl yn y dyfodol, fodd bynnag, mae amserlen a natur unrhyw ddatblygiadau yn ansicr o hyd a byddai'r angen am ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol yn gysylltiedig, yn annatod, ac y byddai y tu allan i'r pentref ei hun. | **3** | **0.8%** |
| | **Ysgol/Safle Presennol** | | | |
| 14 | Mae gwaith cynnal a chadw yn yr ysgol wedi dod i ben i arbed arian, fel y mae nifer o gontractau - ond oni ddylai'r Cyngor fuddsoddi yn yr adeiladau? | Mae cyllid wedi'i neilltuo i ysgolion ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn ogystal ag ar gyfer contractau. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am waith cynnal a chadw cyfalaf ym mhob ysgol, a chyflawnir hwn ar sail blaenoriaeth. | **1** | **0.3%** |
| 15 | Mae gan Felindre ddigonedd o le agored, mynediad i gae chwarae mawr, adran chwaraeon amlddefnydd a mynediad anghyfyngedig i neuadd y pentref, a'r cyfan o fewn pellter cerdded i Gronfeydd Lliw, lle mae'r plant yn mynd yn aml ar deithiau natur. Mae ysgol Felindre yn gaffaeliad diwylliannol gwerthfawr i'r gymuned ac wedi bod yn rhan o fywyd y pentref er 1877. Mae'n sicrhau lles disgyblion, gan ganiatáu iddynt ffynnu mewn amgylchedd bywiog a meithringar. | Yn allanol, mae gan y safle rai nodweddion deniadol, a mynediad i'r neuadd gymuned a'r adran chwaraeon gyfagos, ond mae'r safle'n syrthio'n fyr o ofynion arwynebedd safleoedd Bwletin Adeiladu 99. | **131** | **36.1%** |
| 16 | Mae Ysgol Felindre wedi dod yn ganolfan i ysgolion eraill yn y misoedd diwethaf, gan ddod â phlant o ysgolion Cymraeg eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis chwaraeon, addysg goedwig a'n Eisteddfod leol, a phawb, o'r herwydd, wedi eu cyfoethogi'n fwy trwy'r profiadau hyn. Caiff colli ysgol Felindre effaith enfawr ar yr ysgolion Cymraeg hyn oddi amgylch. | Nodwyd. Gallai YGG Tan-y-lan ac YGG Tirdeunaw gael eu safleoedd newydd eu hunain ym mis Ionawr 2021 a gaiff eu cynllunio i gefnogi cwricwlwm yr 21ain ganrif, a bydd yn cynnwys mannau chwaraeon a mannau glaswelltog yn ogystal â thiroedd wedi'u tirlunio. Mae hyn yn digwydd yn YGG Lôn Las eisoes. | **133** | **36.6%** |
| 17 | Nid yw Felindre erioed wedi cael ei drin ar yr un lefel ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn y sir. | Does dim sail i'r datganiad hwn. Mae Felindre wedi derbyn llawer mwy o gefnogaeth nag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill oherwydd ei chategori oren ac oherwydd ei anallu i ddenu pennaeth. | **2** | **0.6%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 18 | Nid ysgol bentref yn unig yw Felindre, mae'n rhan o'r rhwydwaith ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y Sir, a dylid ei thrin yn rhan o'r ateb yn hytrach na rhan o'r broblem. | Yn cytuno bod gan ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg rwydwaith cryf ac yn wir, mae Sir gyfan Strategaeth a nodir yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg. | **2** | **0.6%** |
| 19 | A yw'r Cyngor wedi profi llygredd awyr ar dri safle'r ysgol yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? A yw'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r gwahanol safleoedd at ddibenion iechyd a diogelwch y plant? | Bydd gan yr ysgol newydd ddigon o le gwyrdd ar gyfer chwarae yn yr awyr agored, a bydd yn cynnwys y gwahanol fannau awyr agored, megis cae bach pob tywydd (ar gyfer hoci, pêl-droed, rygbi, tenis ac ati), lle chwarae amlddefnydd ar lawr caled (MUGA) a maes chwarae glaswellt wedi'i farcio hefyd. Ystyrir iechyd a diogelwch ar gyfer pob cam o'r gwaith o adeiladu ysgolion newydd, o ddylunio i reoli'r ysgol. Nid yw'r Cyngor wedi monitro llygredd awyr yn YGG Felindre oherwydd, o ystyried ei lleoliad a llif y traffig, byddai'n llai o lawer na'r meini prawf asesu gofynnol. O ystyried ein setiau data a'r hyn rydym yn ei wybod am y llygryddion, mae'n annhebygol iawn y byddai YGG Felindre yn faes sy'n achosi pryder. Ni phrofwyd llygredd awyr ar safle newydd Tan-y-lan gan nad ystyriwyd ei fod yn broblem o ystyried natur yr adeilad/diben defnydd a lleoliad y safle. Nid oes dim wedi'i godi yn hyn o beth gan unrhyw un o'r ymgyngoreion yn y broses gynllunio. Mae'n ofynnol i'r Cyngor weithio yn unol â 'Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru - Canllawiau Polisi Mehefin 2017' Llywodraeth Cymru, a luniwyd ar y cyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond mae'r canllawiau technegol yn nodi sut y dylem fynd ati i asesu . | **1** | **0.3%** |
| 20 | Mae rhieni'n dewis anfon eu plant i'r safle bach a gwledig hwn yn lleoliad dewisol. | Nid yw'r mwyafrif o'r dysgwyr ar y gofrestr yn dod o Felindre. | **1** | **0.3%** |
| 21 | Beth fyddai'n digwydd i'r adeilad ysgol a adawyd? A oes unrhyw oblygiadau o ran cost os cau fydd y canlyniad? Sut y byddai'r costau hyn yn cael eu talu? Nid yw'r pentref am gael adeilad adfeiliedig yn ei ganol. Os oes cynlluniau i ddatblygu'r | Nid oes cynlluniau ar gyfer yr adeilad gan nad oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud. Pe bai'r ysgol yn agos, byddai'r safle'n cael ei ystyried i'w ddefnyddio, o bosibl, gan y Cyngor cyn ystyried cael gwared arno. | **2** | **0.6%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | safle, a ymgynghorwyd â thrigolion lleol? | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Arweinyddiaeth** | | | |
| 22 | Bu nifer o brifathrawon dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi effeithio ar niferoedd disgyblion. Rhaid i'r awdurdod lleol dderbyn rhywfaint o gyfrifoldeb am hyn gan na wnaeth gamu i'r adwy i atal hyn rhag digwydd. | Gall fod yn anodd i ysgolion bach gadw penaethiaid gan fod ysgolion mwy o faint yn gallu cynnig cyflogau mwy deniadol a chynnydd gyrfaol. Mae'r Cyngor wedi cefnogi Felindre drwy gael gafael ar ddirprwy benaethiaid a'u hariannu i weithredu'n bennaeth, ond mae'r staff ansawdd hyn wedyn wedi llwyddo i ennill swyddi parhaol i benaethiaid mewn ysgolion eraill. | **4** | **1.1%** |
| 23 | Dylai'r Cyngor gefnogi'r llywodraethwyr i benodi pennaeth parhaol. Pam y rhoddwyd y gorau i ymdrechion ar ôl dwy hysbyseb? | Mae hysbysebion wedi cael eu gosod ddwywaith ond nid oedd y llywodraethwyr yn gallu penodi yn y naill achos na'r llall. Ni fyddai'n ddoeth hysbysebu am bennaeth tra bydd ymgynghori'n parhau ynghylch cynnig i gau'r ysgol. | **209** | **57.6%** |
| 24 | Ni phenodwyd pennaeth parhaol cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad felly ni chafodd yr ysgol gyfle teg i gynyddu ei niferoedd. | Nid oes angen pennaeth parhaol yn ei swydd i gyhoeddi cynnig trefniadaeth ysgolion. Mae gan yr ysgol bennaeth er mai un gweithredol ydyw. | **7** | **1.9%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addysg** | | | |
| 25 | Dywed y Cyngor mai rhesymau addysgol sydd wrth wraidd y cynnig i gau ond ymddengys nad ydynt wedi cynnal asesiad o ansawdd presennol yr addysg yn yr ysgol. Os ydynt wedi gwneud; nid ydynt wedi cyfeirio ato. Fel y nodwyd gan Estyn yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, nid yw'r Cyngor wedi ystyried unrhyw fanteision addysgol o gadw'r ysgol ar agor. | Mae pob ysgol yn cael ei monitro'n gyson gan ERW, y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae hyn yn dangos bod angen llawer o gefnogaeth ar yr ysgol ac nad yw'n gwella'n ddigon cyflym nac yn dangos y gallu i'w gwella ei hun. Rhaid i'r papur ymgynghori gynnwys adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn, a dyna a wnaed. Yr unig ddadl addysgol dros gadw Felindre ar agor fyddai y byddai disgyblion yn elwa o gymhareb disgybl athro uchel a gall hyn fod yn addas i les disgyblion a pherthynas gadarnhaol â'r athro. Fodd bynnag, nid yw lles, ar ei ben ei hun, yn diwallu anghenion dysgu plant. Os yw ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn anfoddhaol, gallai disgyblion Felindre gael yr un athro am y saith mlynedd nesaf. Mae tystiolaeth ymchwil yn cefnogi'r ddamcaniaeth bod disgyblion sydd ag athrawon anfoddhaol am ddwy flynedd yn cael trafferth dal i fyny â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill. Byddai'n heriol i'r addysgu a'r dysgu fod yn foddhaol mewn un ystafell ddosbarth a gallai hyn ddadwneud yr elfennau cadarnhaol a geir mewn dosbarthiadau bach. Caiff pob plentyn ei addysgu ar hyn o bryd mewn un ystafell ddosbarth a'r dosbarthiadau'n mynd o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6. Mae angen arbenigedd ar gyfer y 6 maes dysgu a gynigir ar gyfer mis Medi 2022, yn ogystal â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol na ellir eu rhannu'n ddigonol. Byddai addysgu deg disgybl yn ei gwneud yn anodd bodloni anghenion y dysgwyr. Yn ogystal, byddai'n anodd i un athro ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal ag ehangder y meysydd dysgu a phrofiad. Byddai'r cwricwlwm statudol presennol sydd â deuddeg pwnc ac ystod o oedrannau a galluoedd yn peri problem o ran llwyth gwaith i un athro gydag ystod mor | **11** | **3.0%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | eang o oedran, camau datblygu a gallu mewn un dosbarth. | | |
| 26 | Mae Estyn wedi datgan nad oes unrhyw sicrwydd y bydd yr addysg yn well yn y ddwy ysgol arall. | O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn rhaid i ysgol arall fod o leiaf o'r un safon addysgol. Mae'r dewis arall o safon well ar hyn o bryd. | **5** | **1.4%** |
| 27 | Mae disgyblion y gorffennol wedi mynd ymlaen i'r brifysgol a swyddi da. | Nodwyd. | **2** | **0.6%** |
| | | | | |
| | **Lles** | | | |
| 28 | Bydd y cynnig yn achosi straen i blant. Mae'r Aelod Cabinet wedi datgan bod symud plant i ysgol wahanol yn achosi straen. Mae angen manylion ar sut mae'r awdurdod yn bwriadu lliniaru straen y plant. | Bydd pob plentyn yn cael cynnig cymorth a diwrnodau pontio fel y gallant ddod yn gyfarwydd â'r ysgol newydd a gwneud ffrindiau cyn iddynt symud. | **2** | **0.6%** |
| | | | | |
| | **Cymraeg** | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 29 | Nid oes digon o gymunedau Cymraeg lle mae'r Gymraeg yn parhau i ffynnu i ni fforddio colli un arall ohonyn nhw. | Dim ond 10 dysgwr amser llawn sydd yn yr ysgol ac mae llai na hanner y rhain yn byw yn Felindre. Mae rhieni yn dewis anfon eu plant allan o'r pentref ar gyfer eu haddysg. | **215** | **59.2%** |
| 30 | Plwyf Mawr yw'r ail blwyf mwyaf yn Abertawe, ac mae gan Felindre y boblogaeth Gymraeg fwyaf. Felly, mae ysgol sy'n siarad Cymraeg yn hanfodol er mwyn goroesi. | | **139** | **38.3%** |
| 31 | Mae'r Cyngor eisoes wedi cau'r Ysgol Gynradd Gymraeg yng Ngarnswllt felly bydd cau Felindre yn dileu pob ysgol Gymraeg ym mhlwyf Mawr. | | **2** | **0.6%** |
| 32 | Ysgol Felindre yw'r unig ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol a bydd rhieni sy'n chwilio am addysg Gymraeg i'w plant dan anfantais. | Cynigir lle i blentyn unrhyw riant sy’n gwneud cais am addysg cyfrwng Cymraeg. | **2** | **0.6%** |
| 33 | Felindre yn bentref naturiol Gymraeg lle mae gan y plant dafodiaith leol ac mae eu rhuglder yn yr iaith yn gaffaeliad i'r ysgol uwchradd gan fod canran uchel o ddysgwyr Bryn Tawe o aelwydydd di-Gymraeg. | Ychydig iawn o blant sy'n mynychu Felindre ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn dod o'r tu allan i’r dalgylch. | **2** | **0.6%** |
| 34 | Mae angen meithrin y Gymraeg mewn amgylchedd addas, ac mae Felindre yn gwneud hyn drwy'r gymuned (Eisteddfodau, Clwb Ieuenctid, capel) fel ei bod yn iaith fyw ac nid yn iaith yr ystafell ddosbarth yn unig. Daeth yr Eisteddfod yng Ngarnswllt i ben yn fuan ar ôl i'r ysgol gau. | Fel uchod, fe'n hysbyswyd bod ysgolion eraill wedi mynychu'r Eisteddfod yn ddiweddar ac ati. Nid oes unrhyw reswm pam na all y tripiau hyn barhau i ward Mawr. | **11** | **3.0%** |
| 35 | Dylid cadw'r ysgol yng ngoleuni'r cynigion newydd ar gyfer Cymraeg yn iaith gyntaf mewn ysgolion. | I gyd-fynd â hyn, rydym yn darparu mwy o gapasiti yn y ddwy ysgol gynradd gyfagos, mewn adeiladau newydd a fydd yn nes at Felindre. | **1** | **0.3%** |
| 36 | A all y Cyngor ddarparu data ar nifer y siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r Clâs a Phenlan? | Gellir gweld yr holl wybodaeth proffil ward yma https://www.swansea.gov.uk/article/1808/Search?q=Ward+Profiles | **1** | **0.3%** |
| 37 | Yr ysgol yw curiad calon y pentref o ran defnydd y Gymraeg o ddydd i ddydd. | Dim ond 10 dysgwr amser llawn sydd yn yr ysgol ac mae llai na hanner y rhain yn byw yn Felindre. Mae rhieni yn dewis anfon eu plant allan o'r pentref ar gyfer eu haddysg. | **206** | **56.7%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 38 | Yn groes i gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu siaradwyr Cymraeg. Dylid cadw Felindre ar agor yn ogystal â chynyddu maint ysgolion eraill. | Mae'r cynnig hwn yn un rhan o gynllun ehangach gyda dwy ysgol arfaethedig i'w hadeiladu o'r newydd ar gyfer Tan-y-lan a Tirdeunaw a fydd yn darparu rhagor o leoedd mewn adeiladau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. | **4** | **1.1%** |
| 39 | Gallai fod effaith andwyol ar y Gymraeg gan na fydd rhieni yn dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg pe bai Felindre yn cau. | Byddai'r plant yn cael cynnig lle yn yr Ysgol Gymraeg newydd. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu i ysgol Gymraeg eu dalgylch. Pe baent yn dewis ysgol cyfrwng Saesneg, dim ond i'w dalgylch cyfrwng Saesneg y byddai cludiant yn cael ei ddarparu h.y. Ysgol Gynradd Llangyfelach. | **1** | **0.3%** |
| | | | | |
| | **Effaith ar y Gymuned** | | | |
| 40 | Bydd cau'r ysgol yn newid natur a chymeriad y pentref Cymraeg hwn am byth. | Dim ond 10 dysgwr amser llawn sydd yn yr ysgol ac mae llai na hanner y rhain yn byw yn Felindre. Mae rhieni yn dewis anfon eu plant allan o'r pentref ar gyfer eu haddysg. | **6** | **1.7%** |
| 41 | Mae'r disgyblion a'r ysgol yn ymdoddi i'r gymuned. | | **2** | **0.6%** |
| 42 | Mae presenoldeb Ysgol Gymraeg yn yr ardal hon yn golygu bod y cysylltiad â'r gorffennol yn dal yn fyw. Bydd y cysylltiad hwnnw yn darfod os yw'r ysgol yn cau. Mae cryn hoffter at yr ysgol, ac mae hanes yr ysgol i raddau helaeth iawn, ynghlwm wrth hanes y pentref. | | **2** | **0.6%** |
| 43 | Nodir gwaith gwirfoddol i gefnogi ffyniant a llwyddiant y disgyblion yn arolygiadau Estyn. | Nodwyd. | **207** | **57.0%** |
| 44 | Mae pobl yn symud i'r pentref oherwydd yr addysg unigryw, na all ysgolion mawr ei darparu. | Dim ond 3 dysgwyr ar y gofrestr sy'n byw yn y dalgylch. | **1** | **0.3%** |
| 45 | Yr effaith ar y gymuned. Bydd y gymuned yn cael ei hynysu. Nid oes cludiant ar gael bob amser neu nid yw'n gyfleus. | | **3** | **0.8%** |
| | | | | |
| | **Amserlen** | | | |
| 45 | Peidiwch â symud y plant ddwywaith mewn dwy flynedd, gan fod hyn yn achosi straen. Gadewch Felindre ar agor nes y bydd ysgol newydd Tan-y-lan yn barod. A ystyriwyd | Credwn na fyddai ysgol Felindre yn gynaliadwy hyd nes y bydd yr adeilad newydd yn barod ym mis Ionawr 2021. Ydynt, mae'r holl gostau wedi cael eu cynnwys ar gyfer y symudiadau. | **3** | **0.8%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | goblygiadau cost y ddau symudiad yn y penderfyniad? | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Dewisiadau Eraill** | | | |
| 47 | Dylai'r Cyngor ehangu dalgylch Felindre, gan adlewyrchu statws yr ysgol yn ysgol ddynodedig Gymraeg yn hytrach nag ysgol cyfrwng Cymraeg draddodiadol. | Ni fydd ehangu’r dalgylch yn cynyddu maint yr ysgol gan fod hawl i rieni ddewis i ble y maent anfon eu plant i'r ysgol. Mae rhieni sy'n byw yn Felindre yn anfon eu disgyblion i fannau eraill ar hyn o bryd ond gallent ddewis eu hanfon i Felindre os bydd lle. Yn yr un modd, pe bai rhieni y tu allan i Felindre yn dymuno anfon eu plant i Felindre, bellach byddai modd iddynt wneud hynny. Cafwyd cynigion ar wahân i gynyddu maint ysgolion cyfagos gydag adolygiad o ddalgylchoedd i adlewyrchu'r galw yn well. Byddai newid y dalgylch ar gyfer Felindre yn golygu y gallai fod angen cludo plant i'r pentref pan fo lle ar gael iddynt eisoes sy’n llawer agosach atynt, ac, o bosibl, mewn adeiladau newydd wedi'u cynllunio ar gyfer addysg yn yr 21ain ganrif. Mae YGG Felindre eisoes yn ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig ac nid yw wedi bod yn ysgol cyfrwng Cymraeg draddodiadol ers blynyddoedd lawer. | **216** | **59.5%** |
| 48 | Cludo plant i Felindre o ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill nad ydynt yn ymdopi mewn amgylchedd ysgol mawr. | Gallai'r rhieni ddewis gwneud hyn ar hyn o bryd. | **1** | **0.3%** |
| 49 | Ffedereiddio ag ysgol arall. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod yr awdurdod lleol wedi archwilio/annog pob posibilrwydd arall gan gynnwys ffedereiddio. | Ni nodwyd yr un ysgol arall a fyddai'n ffedereiddio â Felindre pan fyddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y cynnig i gau; felly nid oedd achos busnes i wneud yr ysgol yn gynaliadwy. Mae Lôn Las wedi | **6** | **1.7%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 50 | Cytunodd llywodraethwyr YGG Lôn Las y byddent yn ffedereiddio ag YGG Felindre yn eu cyfarfod ar 31 Ionawr 2019. | cytuno i ystyried ffedereiddio os yw'r Cabinet yn penderfynu cadw'r ysgol ar agor yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2019 ond nid ydynt wedi llunio achos busnes ar sut y byddent yn gwneud yr ysgol yn gynaliadwy. Parhaodd y swyddog i gredu na fydd ffedereiddio yn mynd i'r afael â'r rhesymau pam y cynigiwyd cau. Ni ddylid ystyried ffedereiddio yn ffordd o ymdrin ag anawsterau ariannol gan fod yr arbedion yn gyfyngedig, fel y gwelwyd mewn ffederasiynau ledled Cymru. Gellir gwneud rhai arbedion os yw'r ffederasiwn yn penderfynu penodi pennaeth a dirprwy bennaeth(iaid) a rennir ond mae eu hystod gyflog, fel arfer, yn cynyddu i adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y dysgwyr ar draws y ffederasiwn ac mae angen ôl-lenwi ar gyfer amser digyswllt dirprwy benaethiaid pan fydd y pennaeth ar y safle arall. Byddai angen cynnal dau safle. Mae'r realiti o rannu adnoddau ar draws dau safle gyda phellter rhyngddynt yn gyfyngedig. Ni ellir gwneud i staff presennol weithio yn yr ysgol arall oni bai eu bod yn cytuno i newid telerau eu contract. Gallai ffedereiddio olygu nad oes unrhyw sicrwydd y bydd niferoedd y disgyblion yn cynyddu, gan ei gwneud yn anodd darparu cwricwlwm mewn un dosbarth ar gyfer ystod ehangach o lefelau sgiliau nag y byddech yn ei gael fel arfer mewn ystafell ddosbarth. Gan nad yw ffedereiddio yn gwarantu bod athrawon yn symud rhwng ysgolion, efallai na fydd unrhyw arbenigedd ar gyfer y 6 maes dysgu a gynigir ar gyfer Medi 2022, yn ogystal â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, wedi ei rannu'n ddigonol. Byddai addysgu deg disgybl yn ei gwneud yn anodd diwallu anghenion y dysgwyr. Yn ogystal, byddai'n anodd i un athro ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal ag ehangder y meysydd dysgu a phrofiad. Byddai'r cwricwlwm statudol presennol gyda deuddeg pwnc ac ystod o oedrannau a | **2** | **0.6%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | galluoedd yn peri problem o ran llwyth gwaith i un athro sydd ag ystod mor eang o oedran, camau datblygu a gallu mewn un dosbarth. Yr unig ddadl addysgol dros gadw Felindre fyddai bod disgyblion yn elwa o gymhareb disgybl athro uchel a gall hyn fod yn addas i les disgyblion a pherthynas gadarnhaol â'r athro. Fodd bynnag, nid yw lles, ar ei ben ei hun, yn diwallu anghenion dysgu plant. Os yw ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn anfoddhaol, gallai disgyblion Felindre gael yr un athro am y saith mlynedd nesaf. Mae tystiolaeth ymchwil yn cefnogi'r ddamcaniaeth bod disgyblion sydd ag athrawon anfoddhaol am ddwy flynedd yn cael trafferth dal i fyny â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill. Am y rhesymau a nodwyd uchod, byddai'n heriol i addysgu a dysgu fod yn foddhaol mewn un ystafell ddosbarth a gallai hyn ddadwneud yr elfennau cadarnhaol a geir mewn dosbarthiadau bach. | | |
| 51 | Er bod RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) yn cefnogi cau Felindre ac yn deall y rhesymau dros gau, byddent yn hoffi gweld y safle gwag yn cael ei ddefnyddio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn ddelfrydol Uned Cyfeirio Disgyblion. | Mae'r awdurdod lleol yn monitro'r galw am ddarpariaeth arbenigol yn barhaus ac nid oes digon o alw am Uned Cyfeirio Disgyblion, a gall y gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) newydd gefnogi siaradwyr Cymraeg. | **1** | **0.3%** |
| 52 | Cynyddu defnydd y gymuned o safle'r ysgol i'w gadw'n hyfyw. | Mae neuadd gymunedol yn y pentref sy'n cael ei defnyddio'n dda felly does dim angen y gofod ychwanegol hwn. | **1** | **0.3%** |
| | | | | |
| | **Cyllid** | | | |
| 53 | Mae'r ysgol yn gynaliadwy fel y mae, felly gadewch hi ar agor. Mae gan yr ysgol £10mil yn ei chronfeydd wrth gefn, sy'n dda i ysgol fach. | Mae pwysau cyllidebol yn cynyddu ar bob ysgol a chredwn nad yw Felindre yn gynaliadwy. Mae £10mil yn swm cymharol fach o'i gymharu â'r heriau cost ac ariannu posibl y mae'n debygol o'u hwynebu. | **1** | **0.3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 54 | Mae'r dreth gyngor yn Felindre yn uchel iawn eto ni fydd unrhyw ysgol na mwynderau eraill. | Nid yw'r dreth gyngor yn cael ei chyfrifo ar sail ysgol sydd ar gael. Fe'i cyfrifir yn bennaf ar werthoedd tai. | **1** | **0.3%** |
| 55 | Mae manteision cadw'r ysgol ar agor yn gorbwyso enillion ariannol byrdymor. | Nid er budd ariannol y mae'r cynnig, ond er mwyn gwella deilliannau addysgol dysgwyr nawr ac yn y dyfodol. | **1** | **0.3%** |
| | | | **0** | **0.0%** |
| | **Staff** | | **0** | **0.0%** |
| 56 | Gan fod nifer y disgyblion mor isel yn Felindre, mae'n annhebygol y bydd angen staff ychwanegol yn yr ysgol newydd. | Byddai'r adran adnoddau dynol yn gweithio gyda'r staff i chwilio am swyddi eraill yn y Cyngor. | **1** | **0.3%** |
| | | | | |
| | **Y Broses** | | | |
| 57 | Mae’r penderfyniad wedi'i wneud eisoes.  Roedd y papurau ymgynghori yn unochrog. | Mae hwn yn gynnig ymgynghori go iawn ac nid oes penderfyniadau wedi eu gwneud. | **1** | **0.3%** |
| 58 | Dywedwch fod y cynnig yn ymwneud â phlant yn hytrach nag ag arian, ac eto mae gan y dogfennau lawer o bwyslais ar gynaliadwyedd a chostau. | O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, rhaid cynnwys gwybodaeth ariannol benodol. | **1** | **0.3%** |
| 59 | Mae angen i Aelodau Staff a'r Cabinet sy’n gwneud y penderfyniad hwn ymweld â'r ysgol yn ystod diwrnod ysgol i ddeall sut mae'r ysgol yn gweithio, yr hyn y mae'n ei gynnig i'w disgyblion a'r hyn y mae'n ei ychwanegu at y gymuned. | Nid yw hyn yn un o ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. | **1** | **0.3%** |
| 60 | Anwybyddwyd llawer o'r opsiynau a'r dadleuon a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad a'u hepgor o adroddiadau i'r Cyngor, er enghraifft, ehangu dalgylch Felindre. | Crynodeb o'r ymatebion a godwyd yw'r Adroddiad Ymgynghori; fodd bynnag caiff aelodau'r Cabinet weld pob gohebiaeth yn llawn cyn eu cyfarfodydd er mwyn iddynt allu ystyried y manylion llawn wrth wneud eu penderfyniadau.  Ystyriwyd ymestyn y dalgylch yn benodol yng nghorff adroddiad y Cabinet (opsiwn 6). | **1** | **0.3%** |
| 61 | Mae'r Cyngor wedi dweud na allant ffafrio’r naill ysgol ar draul y llall, ond maent wedi gwneud hynny drwy aberthu Felindre, sef ysgol y mae sawl cenhedlaeth o rai teuluoedd | Mae digon o le yn yr ysgolion 21ain ganrif newydd a fydd yn cael eu hadeiladu. | **1** | **0.3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wedi ei mynychu. Mae ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i'w groesawu, wrth reswm, ond dylai'r Cyngor gadw Felindre yn ogystal ag ehangu ysgolion eraill. | | | |
| 62 | Nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hystyried cyn dechrau ar y broses (er mwyn adeiladu cymunedau cryf) ac nid yw'r dogfennau ymgynghori'n bodloni'r disgwyliadau. | Mae Cyngor Abertawe yn gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ym mhob peth a wna. Mae datblygu cynaliadwy wedi bod yn egwyddor drefniadol ganolog er 2012 a phob blwyddyn mae'r Cyngor yn anelu at wreiddio mwy o arferion cynaliadwy ac adeiladu arnynt. Mae'r ffocws ar integreiddio newid ymddygiad er mwyn i'r pum ffordd o weithio a chynyddu a phob un o'r nodau llesiant cenedlaethol fod yn ymhlyg yn y ffordd y mae gwasanaethau yn gweithredu ar lefel Cyngor cyfan.<br>Integreiddio- Mae ein Cynllun Corfforaethol 'Sicrhau Abertawe Gynaliadwy a Llwyddiannus' yn nodi sut mae'r sefydliad yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a'r cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol. Credwn fod y penderfyniad hwn yn cyd-fynd nid yn unig â'r amcan llesiant 'Gwella Addysg a Sgiliau' ond ag amcanion llesiant eraill.<br>Mae Cynllun Llesiant Lleol Abertawe yn rhoi blaenoriaeth i amcanion llesiant lleol ar gyfer gweithredu ar y cyd. Ni fygythir cyflawniad Amcanion Llesiant Lleol gan y penderfyniad hwn. Gan fod y dystiolaeth hon yn dangos effeithiau pellgyrhaeddol ar draws y nodau llesiant, mae'r rhain wedi'u dogfennu. Mae Cyngor Abertawe yn ystyried y materion hyn nid yn unig fesul un drwy fynd i'r afael â phryderon penodol ar eu pen eu hunain ond drwy ystyried yn anffurfiol yr effaith gyfunol ar lesiant a sut y gall y materion a godir effeithio ar lesiant ehangach. Mae hyn yn ystyried yn anuniongyrchol yr effaith gyfunol ar y saith nod llesiant fel set.<br>Tymor hir - Mae'r penderfyniad yn ystyried, nid yn unig les y dysgwyr | **3** | **0.8%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sydd yn Felindre ar hyn o bryd, ond hefyd lles holl ddysgwyr Abertawe heddiw ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried tueddiadau hirdymor sy'n llywio datblygiad polisïau a strategaethau'r Cyngor.<br>Atal - Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar ôl nodi effeithiau andwyol ar ddysgu a chynaliadwyedd yn y dyfodol. Nod y penderfyniad hwn yw rhwystro neu atal problemau rhag gwaethygu.<br>Cydweithredu - Mae ystyriaeth yr effeithiau ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wedi'i llywio gan arbenigedd gwasanaethau ar draws ein sefydliad a chan sefydliadau allanol megis y Comisiwn Archwilio. Archwiliwyd cyfleoedd cydweithredol e.e. ffedereiddio yn rhan o hyn<br>Cynnwys - Mae'r ddogfen ymgynghori yn dangos gweithgareddau cynnwys sylweddol gyda'r rhai sydd â diddordeb neu yr effeithiwyd arnynt gan y cynnig mewn ffordd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth | | |
| 63 | Ni ymgynghorwyd â phobl sydd â diddordeb e.e. myfyrwyr, rhieni, trigolion, busnesau lleol. | Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal â phob parti sydd â diddordeb yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. | **1** | **0.3%** |
| 64 | Nid oedd yr ymgynghoriad yn ystyried beth fyddai'n digwydd i blant sydd ag AAA pe bai'r ysgol yn cau. | Rhaid i bob ysgol roi cymorth priodol i'w dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion sydd ag AAA yn cael cymorth gydol y cyfnod pontio i'w hysgol newydd a byddai'r ysgol newydd honno yn darparu'r lefel ofynnol o ymyrraeth. | **1** | **0.3%** |
| 65 | Ni lwyddodd y Cyngor i gynnal arolwg ar effaith eu penderfyniad ar y Gymraeg yn y gymuned, yn groes i Fesur Iaith Gymraeg 2011. Ni ddylai'r ysgol gau nes bod Comisiynydd y Gymraeg wedi ymchwilio i gŵyn sydd wedi ei gwneud am y broses hon. | Mae hon yn ddogfen fyw ac yn datblygu wrth i'r cynnig ddatblygu. Cynhyrchwyd diweddariad ar ddiwedd yr ymgynghoriad a chafodd ei adolygu ymhellach ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r Comisiynydd. | **208** | **57.3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 66 | Ni roddwyd sylw dyledus i CCUHP a methwyd â chysylltu â phlant mewn ysgolion y bydd dyfodiad plant Felindre yn debygol o effeithiol arnynt. Gan fod y Cyngor wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i hawliau’r plant, dylid cynnal asesiad effaith ar eu hawliau. | Yn unol â'r Cod, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori â dysgwyr ar y cynghorau ysgol yn YGG Felindre, YGG Tan-y-lan ac YGG Tirdeunaw. Dosbarthwyd papurau ymgynghori i bob dysgwr yn yr ysgolion hyn a thu hwnt hefyd. Darparwyd ffurflen ymgynghori ar-lein ar wahân ar gyfer dysgwyr a derbyniwyd a nodwyd ymatebion. | **1** | **0.3%** |
| 67 | Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn annigonol/ni chafodd ei gynnal. | Lluniwyd yr asesiad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. | **2** | **0.6%** |
| 68 | Gallai'r awdurdod lleol fod wedi defnyddio grant ysgolion bach a gwledig Llywodraeth Cymru i ariannu'r ysgol ar gyfer gofynion TG newydd. Gallai fod wedi tawelu pryderon am e-ddysgu, a allai fod wedi hwyluso'r cyfuno. | Cyfyngedig oedd meini prawf y cynigion grant. | **1** | **0.3%** |
| 69 | Nid yw'r asesiad o'r effaith ar yr Iaith Gymraeg yn mynd i'r afael â faint o deuluoedd fyddai'n dewis anfon eu plant i ysgol cyfrwng Saesneg wahanol o ganlyniad i'r cau. | Gan nad oes penderfyniad i gau eto, ni allwn gasglu’r data hyn. | **1** | **0.3%** |
| 70 | Ni wnaeth y Cyngor ymateb i'r holl sylwadau gan Estyn ynglŷn â'u hymgynghoriad. Ymhlith y rhestr o fethiannau, mae anallu'r Cyngor i gynnal arolwg ar safon y ddarpariaeth addysgol bresennol, er iddo honni mai safon yr addysg oedd y rheswm dros gau. Nid oedd y papur ymgynghori ar gyfer disgyblion yn rhoi digon o fanylion am fanteision ac anfanteision y Statws Quo. | Mae’r awdurdod lleol wedi darparu ymateb i bwyntiau a godwyd gan Estyn. | **213** | **58.7%** |
| 71 | Mae agwedd y Cyngor tuag at ddefnyddio a chymhwyso'r Gymraeg yn ystod y broses ymgynghori wedi bod yn annigonol. | Ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd ynghylch y broses ymgynghori ar unwaith gan sicrhau y gallai'r holl randdeiliaid gymryd rhan lawn yn yr ymgynghoriad, fel y gellir gweld yn yr ymatebion hyn. Dim ond un ymateb a gawsom i ddweud na ellid cael gafael ar ddogfen (er y gallai eraill gael y ddogfen hon). | **2** | **0.6%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 72 | Mae Felindre wedi'i rhestru yn ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ceisio gwarchod ysgolion bach gwledig. Ni wnaethoch ddilyn y Cod hwn. Er bod yr ymgynghoriad wedi dechrau o dan yr hen God, a allwch roi sicrwydd bod y Cod newydd wedi'i ystyried yn ystod yr ymgynghoriad hwn? | Nid oedd y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd wedi'i gyhoeddi pan ddechreuodd y cynnig hwn, a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n berthnasol i unrhyw gynigion yr ymgynghorwyd arnynt eisoes, fel yn achos Felindre. Serch hynny, gweithredodd y Cyngor yn unol ag ysbryd y Cod newydd. O dan y Cod newydd, rhaid ystyried opsiynau amgen ar gyfer cau, a digwyddodd hynny. | **6** | **1.7%** |

Sicrhawyd bod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn llawn i'r Cabinet eu gweld.

## 3. YMATEB RhAG

Mae RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) yn fudiad a sefydlwyd yn 1952 i annog datblygiad addysg Gymraeg. Caiff ei noddi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cynrychioli rhieni disgyblion mewn ysgolion Cymraeg, ac mae mewn cyswllt cyson ag ysgolion Cymraeg.  Mae RhAG yn cefnogi'r cynnig i gau YGG Felindre a gwnaeth y sylwadau canlynol yn ystod y cyfnod rhybudd statudol:

1. Rydym yn ymwybodol bod nifer y disgyblion yn ysgol Gymraeg Felindre wedi mynd yn rhy fach i gynnal addysg hyfyw.

2. Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Felindre yn fychan iawn. Mae hyn yn adlewyrchu newid demograffig yn yr ardal, a symudoledd rhieni o ran gwaith.

3. Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu nifer helaeth o dai ger yr M4, rhwng Llangyfelach a Felindre.  Yn sgil hyn, ac o ystyried gwasanaeth addysgol ehangach y Sir, byddem yn dymuno gweld y Sir yn cadw ysgol Felindre at ddibenion addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gynnwys:

    i. Darpariaeth gyn-ysgol

    ii. Uned Cyfeirio Disgyblion

    iii. Uned i hwyrddyfodiaid

    Gallai ii. uchod fod yn bwrpasol iawn, gan gynnig i ddisgyblion awyrgylch wledig a chreadigol, sy'n debygol o fod yn wahanol i'w hamgylchiadau cartref neu drefol.

4. Gallai'r cynlluniau uchod fod mewn cysylltiad ag Ysgol Gymraeg arall a fydd yn gwasanaethu'r ardal.

Mae'r awdurdod lleol yn croesawu cefnogaeth RhAG i'r cynnig hwn.  Nid oes cynllun ar gyfer defnyddio safle ysgol Felindre yn y dyfodol ond, os bydd y Cabinet yn cytuno i gau'r ysgol, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddiau eraill, yn dibynnu ar y galw a ffactorau eraill, cyn i gwaredu unrhyw beth.